Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Lleisiau dros Newid Cymru – rhannwch eich barn

Bydd y cyllid ar gyfer prosiect Lleisiau dros Newid Cymru WCVA yn dod i ben eleni, felly rydym yn cynnal arolwg i weld beth yw eich barn chi am y gwasanaethau a ddarperir ganddo.

Nod y prosiect yw helpu grwpiau'r trydydd sector i ddylanwadu mor effeithiol â phosibl ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaethau i helpu grwpiau i leisio'u barn; drwy ddeall sut mae strwythurau a phrosesau gwleidyddol yn gweithio a meithrin sgiliau ymgyrchu a lobïo. Mae staff y prosiect, Jen Bradbury, Michelle Matheron a Sarah Ball, yn darparu cyngor, gwybodaeth a gwasanaethau hyfforddi, yn ogystal â datblygu a chynnal a chadw gwefan Lleisiau dros Newid Cymru.

Os ydych chi wedi defnyddio gwasanaethau prosiect Lleisiau dros Newid Cymru erioed, byddai'n ddefnyddiol iawn i ni petaech chi'n dweud eich barn wrthym ni amdanyn nhw drwy lenwi ein harolwg byr ar-lein, sydd ar gael yn http://www.surveymonkey.com/s/vfcc. Bydd eich sylwadau yn yr arolwg yn ein helpu ni gyda dau beth: yn gyntaf, byddwn ni'n gallu gwerthuso pa mor effeithiol yw'r prosiect presennol ac yn ail byddwn ni'n gwybod eich barn chi am ba wasanaethau tebyg y byddech chi'n hoffi eu gweld yn y dyfodol petaem ni'n gallu sicrhau rhagor o gyllid. Bydd hyn yn ein helpu ni i'ch helpu chi i barhau i leisio eich barn!

Rhaglen y Ddraig Werdd i gefnogi mentrau cymdeithasol

Bydd mentrau cymdeithasol ledled Cymru yn elwa o raglen am ddim a fydd yn sefydlu systemau rheoli amgylcheddol ac yn datblygu eu busnesau drwy ddefnyddio Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Mae Groundwork, mewn partneriaeth â Phrosiect Cefnogaeth Menter Gymdeithasol Canolfan Cydweithredol Cymru, wedi cael contract i gyflenwi Lefel 1 a Lefel 2 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd i fentrau cymdeithasol ar draws ardaloedd cydgyfeirio Cymru. Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn system fesul cam sy'n cynnwys pum Lefel, sy'n rhoi'r fframwaith i arbed costau, cydymffurfio â rheoliadau, gwella perfformiad amgylcheddol a gwella cystadleurwydd.

Mae'r rhaglen am ddim hyd at Lefel 2 y Ddraig Werdd i fentrau cymdeithasol cymwys ac mae'n cynnig manteision arbedion ariannol a gwell perfformiad amgylcheddol. Caiff y Prosiect ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy raglen Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd sy'n cael ei gweinyddu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael ar y rhaglen, felly os ydych chi'n fenter gymdeithasol sydd â diddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch ag Alison Bedford, Cydlynydd Prosiect yr Amgylchedd ar 01978 757524, alison.fuller@groundwork.org.uk. I gael mwy o wybodaeth am y Ddraig Werdd, tarwch olwg ar: www.greendragonems.com.

Cyfranogaeth Cymru yn cyhoeddi rhaglen hyfforddiant newydd ar ymgysylltu gyda dinasyddion a chymunedau

Mae Cyfranogaeth Cymru wedi lansio ei rhaglen hyfforddiant newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat am Ebrill - Mehefin 2011.

Mae ein cyrsiau hyfforddiant yn addas i bobl sydd eisiau dylunio, datblygu a darparu ymgysylltiad gyda dinasyddion a chyfranogaeth gyhoeddus. Gall ein cyrsiau darparu'r sgiliau sydd eisiau arnoch er mwyn ymgysylltu gyda hyder, ac fe fydd yn gwella ansawdd yr ymgysylltiad mai'ch mudiad yn darparu.

Mae'n gynnwys cyrsiau poblogaidd o raglenni blaenorol fel Hwyluso uwch a Hyder mewn digwyddiadau cyhoeddus, a hefyd cyrsiau newydd sbon megis Gwerthuso a monitro allbynnau a Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol. Bydd Cyfranogaeth Cymru hefyd yn rhedeg ein hyfforddiant achrededig poblogaidd ar Ymgysylltiad cyhoeddus: damcaniaeth ac ymarfer.

Gallwch weld y rhaglen lawn yn www.participationcymru.org.uk.

Mae gwybodaeth bellach ar gael o www.participationcymru.org.uk/training neu trwy gysylltu â ni ar 029 2043 6596 neu participationcymru@wcva.org.uk.

Galw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr

Mae WCVA wedi lansio Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru sydd yn cael eu cefnogi eleni gan CCLA.

Ers i'r fenter ddechrau ym 2004, mae nifer yr enwebeion wedi cynyddu i dros 200 mewn pum categori, a ddewiswyd i adlewyrchu'r ystod o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ledled Cymru.

Yn ogystal â chydnabod unigolion, pobl ifanc (dan 25 oed) a grwpiau, mae'r hefyd yn gwobrwyo gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr 'gwyrdd'. Ceir hyd at dri enillydd ymhob categori, sy'n arwain at 15 enillydd cenedlaethol, a bydd yr enillwyr yn cael eu gwobrau mewn seremoni yng Nghaerdydd fis Mehefin, a bydd pawb a enwebir yn cael tystysgrifau clod mewn seremoni leol neu drwy'r post.

Ymhlith Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2010 oedd dau amgylcheddwr sy'n cymryd amser o'u gwaith yn ddi-dâl i wirfoddoli ac ymddiriedolwr sydd wedi bod yn allweddol yn sicrhau bod Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn y Gogledd yn rhedeg yn effeithiol.

Mae'r cefnogwr CCLA yn bodoli i helpu elusennau i wneud y gorau o'u buddsoddiadau. Gweler www.ccla.co.uk am ragor o wybodaeth.

Gellir cael manylion y cynllun, gan gynnwys ffurflenni enwebu, drwy gysylltu â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy anfon e-bost at help@wcva.org.uk. Hefyd, gellir eu llwytho i lawr o'r wefan o fis Chwefror, sef www.wcva.org.uk/voty. Y dyddiad cau ar gyfer cael enwebiadau yw 15 Ebrill 2011.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru